Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Tryloywder 2016

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Tryloywder 2016

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Ynglŷn a Swyddfa Archwilio Cymru/Yr Archwilydd Cyffredinol | 5 |
| Fframwaith rheoli ansawdd | 6 |
| Monitro ac adrodd ar ansawdd archwiliadau | 13 |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yn rhan o gyfres o adroddiadau sydd, gyda'i gilydd, yn darparu gwybodaeth debyg i'r hyn y mae'n ofynnol i gwmnïau archwilio'r sector preifat ei chyhoeddi yn eu 'hadroddiadau tryloywder'. Nid ydym yn ddarostyngedig i ofynion yr adroddiadau tryloywder hyn, ond rydym yn ymrwymedig i'r egwyddor o dryloywder ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae adran gyntaf yr adroddiad hwn - Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru/Yr Archwilydd Cyffredinol - yn darparu cyfeiriadau at y mannau hynny lle rydym eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth am ein trefniadau llywodraethu a'n trefniadau ariannol (gwybodaeth y mae'n ofynnol i gwmnïau'r sector preifat ei chynnwys yn eu 'hadroddiadau tryloywder' gan nad yw'n cael ei darparu yn unman arall).

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd safonau uchel o ran ansawdd archwiliadau yn ein holl waith, er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd y gellir dibynnu ar ein gwaith, a bod y negeseuon yr ydym yn eu darparu yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Bwriad y rhannau sy'n weddill o'r adroddiad yw egluro, ar lefel uchel, y trefniadau a oedd ar waith gennym yn ystod y cyfnod 1 Ionawr 2016 i 30 Gorffennaf 2016 i gyflawni'r amcanion hyn.


# Ynglŷn a Swyddfa Archwilio Cymru/ Yr Archwilydd Cyffredinol


Mae gwybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i nodi mewn amrywiaeth o ddogfennau cyhoeddus sydd ar gael ar ein gwefan. Mae'r rhain yn cynnwys:


- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16
- Cynllun Blynyddol 2016-17
- Adroddiad Interim 2016
- Cod Ymarfer sy'n Llywodraethu'r Berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru
- Cod Ymarfer Archwilio a Datganiad o Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2014

Mae gwybodaeth am ein trefniadau llywodraethu a'n trefniadau ariannol ar gael yn y dogfennau hyn, fel y dangosir yn y tabl isod.

| **Strwythur Cyfreithiol** | **Trefniadau Llywodraethu** | **Gwybodaeth Ariannol** | **Cydnabyddiaeth Bwrdd ac Uwch-reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|---|---|
| Mae'r Cod Ymddygiad sy'n Llywodraethu'r Berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn crynhoi rolau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. | Nodir crynodeb o strwythur llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn y Datganiad Llywodraethu a gyhoeddir yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. | Ceir manylion am incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. | Nodir gwybodaeth am gydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Uwch-reolwyr, ac am sylfeini'r gydnabyddiaeth, yn ein Hadroddiad Cydnabyddiaeth blynyddol a gyhoeddir yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. |



# Y Fframwaith Rheoli Ansawdd

Cynlluniwyd ein system rheoli ansawdd i gydymffurfio â safonau rheoli ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol.

Mae ein Pwyllgor Rheoli o'r farn bod y fframwaith ansawdd hwn yn gweithredu'n effeithiol, a bod y trefniadau yn parhau i ddatblygu fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn.

## Y cywair ar y brig

Mae'r Archwilwyr Cyffredinol Cynorthwyol ar gyfer Archwiliadau Ariannol ac Archwiliadau o Berfformiad, yn ôl eu trefn, yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am ansawdd archwiliadau o fewn eu practisau eu hunain. Maent yn sicrhau bod ansawdd archwiliadau ar flaen y gad o ran yr hyn rydym yn ei wneud trwy:

- bennu safonau personol ar gyfer ansawdd archwiliadau ac arwain trwy esiampl;
- ymgorffori ansawdd archwiliadau yn ein strategaethau, diwylliant, gwerthoedd, cod ymarfer ac yn ein methodolegau harchwilio;
- hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwiliadau trwy ein system arfarnu perfformiad;
- darparu negeseuon rheolaidd, agored a chlir i'r staff ynglŷn â phwysigrwydd ansawdd archwiliadau; a
- sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer ansawdd archwiliadau.

Mae ein diwylliant yn ymrwymedig i welliant parhaus ac i gefnogi ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, trwy ddysgu a datblygu, a thrwy ein trefniadau rheoli perfformiad.

## Methodoleg ac offer archwilio

Elfen bwysig o gyflawni ansawdd archwiliadau yw sefydlu dulliau safonol o wneud ein gwaith. Rydym wedi datblygu methodolegau cyson ar gyfer ein holl waith, fel a ganlyn:

- mae'r Llawlyfr Archwilio Perfformiad yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal ein holl waith archwilio perfformiad;
- mae'r Llawlyfr Archwilio Ariannol yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal ein holl waith barnu cyfrifon; ac
- mae cyfres o gyfarwyddiadau ardystio yn rhoi arweiniad ar waith ardystio grantiau.

Mae ein holl fethodolegau archwilio yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwiliadau, yn ogystal â rôl holl aelodau'r staff wrth gyflawni lefelau disgwyliedig o ran ansawdd archwiliadau.


Mae'r methodolegau hyn wedi'u cynllunio i sefydlu man cychwyn ar gyfer cymhwyso dyfarniadau a gweithdrefnau cyson at ein holl waith archwilio, ac fe'u cefnogir gan ddogfennaeth a systemau rheoli cofnodion sydd eto yn hyrwyddo cysondeb ac ansawdd archwiliadau.


Rydym hefyd yn defnyddio nifer o offer cyfrifiadurol eraill wrth ymgymryd â'n gwaith. Mae hyn yn caniatáu i ni gwestiynu symiau mawr o ddata cymhleth.

Er bod safoni dulliau archwilio yn gwella ansawdd archwiliadau, ni all hyn ddisodli'r angen am amheuaeth a barn effeithiol yr archwilwyr. Trwy ein rhaglenni dysgu a datblygu, rydym yn parhau i hyrwyddo'r sgiliau hyn wrth i ni hefyd ddiweddaru ein methodolegau archwilio i gynnwys arferion gorau ac ystyried datblygiadau proffesiynol newydd.

Yn yr un modd, mae cwmnïau preifat hefyd yn defnyddio methodolegau ac offer safonol.

Cefnogir ein holl archwilwyr, yn cynnwys cwmnïau preifat, gan swyddogaethau technegol pwrpasol sy'n rhoi arweiniad a chyngor arbenigol ar amrywiaeth o faterion technegol a phroffesiynol.



## Annibyniaeth archwilwyr

Un o nodweddion allweddol archwilwyr yw'r gofyniad ein bod yn annibynnol ar y rheini rydym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig cyflawni'r gwaith archwilio, ond annibyniaeth penodiadau hefyd. Mae'r annibyniaeth hon yn cefnogi ein hymarfer o amheuaeth broffesiynol, ac yn ein galluogi i ddod i gasgliadau gwrthrychol, gan sicrhau nad yw dylanwadau a allai amharu ar ein barn broffesiynol yn effeithio arnom.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y mwyafrif o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r swyddfa yn annibynnol ar y llywodraeth, ac mae'r penodiadau yn cael eu gwneud gan y Frenhines ar enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penodir Archwilwyr Cyffredinol am gyfnod penodedig o wyth mlynedd, a gellir eu rhyddhau o'r swydd gan y Frenhines dan amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig. Mae cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae hyn yn cynnal annibyniaeth y swydd.

Rydym wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad sy'n atgyfnerthu annibyniaeth a gwrthrychedd ein gwaith. Mae'n ofynnol i bob un o'n staff wneud datganiad annibyniaeth blynyddol, er mwyn nodi unrhyw gysylltiadau â'r cyrff rydym yn eu harchwilio a allai amharu ar eu hannibyniaeth. Lle caiff unrhyw rwystrau o'r fath eu nodi, cymerir camau priodol i liniaru unrhyw wrthdaro buddiannau posibl i lefel dderbyniol. Gall camau o'r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar archwiliadau penodol, neu gyfyngu ar gysylltiad unigolyn ag archwiliad penodol.

Mae Cod Ymddygiad ar wahân wedi'i sefydlu ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Mae'n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn unrhyw fater, a gall fod yn ofynnol iddynt dynnu'n ôl o gyfarfodydd lle mae'r mater hwnnw yn cael ei ystyried.

Yn ychwanegol at y gwaith statudol y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Mewnol ymgymryd ag ef, efallai y bydd, bob hyn a hyn, yn gwneud ychydig o waith anstatudol. Rydym wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau na fydd gwaith o'r fath yn cael ei wneud oni bai fod gennym y gallu a'r adnoddau i wneud y gwaith hwnnw, a lle na fyddai derbyn trefniant o'r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'n ofynnol i gwmnïau preifat sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol sicrhau bod trefniadau tebyg ar waith i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth yr archwiliadau y maent yn ymgymryd â nhw. Mae gennym weithdrefnau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi cyhoeddi Polisi Cylchdroi sy'n rheoli pa mor hir y gall uwch-aelodau o staff ymwneud â chyfarwyddo unrhyw archwiliad penodol. Nod y polisi yw sicrhau cydbwysedd rhwng natur annewisol, yn bennaf, ein gwaith, ei weithlu bach, a gofynion safonau moesegol.

Darperir hyfforddiant i'r staff yn rheolaidd, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n polisïau a'n gweithdrefnau o ran annibyniaeth.

## Addysg broffesiynol barhaus ar gyfer archwilwyr

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddysgu a datblygu staff, er mwyn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth broffesiynol. Ar gyfarttaledd, rydym yn caniatau 10 diwrnod blynyddol i'r holl staff i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol.

Mae dwy brif elfen i'n rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol:

- rhaglenni gorfodol: mae'r rhain wedi'u cynllunio i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant mewn meysydd sgiliau technegol a chraidd newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w rolau penodol; a
- dysgu 'ar alw': caiff hyn ei nodi trwy adolygiadau datblygu perfformiad gan unigolion gyda'u rheolwyr llinell, ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi datblygiad personol unigolion.

Mae ein prosesau datblygu personol wedi cael eu hachredu gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) fel system datblygiad proffesiynol parhaus addas ar gyfer ein staff sy'n aelodau o'r Sefydliad hwnnw.

Mae effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol yn ddarostyngedig i adolygiad ac asesiad parhaus. Yn benodol, cynhelir asesiadau achlysurol, rhwng unigolion a'u rheolwyr llinell, o effeithiolrwydd y dysgu, a sut y caiff ei gymhwyso'n ymarferol.

Rydym hefyd yn gweithredu dull dysgu ôl-brosiect ar gyfer pob prif brosiect. Mae'r dull hwn yn ceisio atgyfnerthu ein nod o fod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn rhannu, ac sy'n ymdrechu'n barhaus i wella. Mae'r broses ddysgu ôl-brosiect hon yn canolbwyntio ar ystyried beth y gallwn ei ddysgu o'r ffordd y cafodd y prosiect ei gyflawni, ac mae'n hyrwyddo ystyriaeth o'r canlynol:

- beth oedd wedi gweithio'n dda;
- beth y gellid bod wedi ei wella;
- sut yr oedd yn teimlo;
- tystiolaeth o'r effaith; a
- gwersi ar gyfer y dyfodol.

Mae cwmnïau preifat hefyd yn dod i'n rhaglenni hyfforddi gorfodol, er mwyn sicrhau cysondeb ymhlith y rheini sy'n ymgymryd â gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

## Monitro

Rydym wedi sefydlu trefniadau monitro ansawdd ar gyfer archwiliadau ariannol ac archwiliadau o berfformiad fel ei gilydd, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r safonau rydym yn eu disgwyl o ran ansawdd archwiliadau yn ein holl waith. Amlinellir y rhain isod.

### Archwiliadau ariannol

Mae polisi o adolygiadau cylchdro wedi'i fabwysiadu ar gyfer archwiliadau ariannol – barnu cyfrifon ac ardystio grantiau – a chaiff archwiliadau mewnol eu dethol i gael eu hadolygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- caiff pob arweinydd ymgysylltu, fel arfer, ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd; a
- chaiff pob rheolwr, fel arfer, ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.

Rydym hefyd yn anelu at roi sylw cynrychioliadol i'r cyrff rydym yn eu harchwilio, gan ystyried y sectorau archwilio, a maint a chymhlethdod y cyrff.

Bydd unigolion cyfatebol o asiantaethau archwilio eraill y DU, sef Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, yn ymgymryd â nifer o'r adolygiadau hyn.

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Practis hefyd wedi gwella ei drefniadau drwy ddefnyddio Adran Sicrhau Ansawdd yr ICAEW i adolygu trefniadau ansawdd yn annibynnol ledled y Practis. Rydym wrthi'n diweddaru contract newydd sy'n cynnwys gwasanaethau adolygu ansawdd a hefyd hyfforddiant ar gyfer adolygwyr ansawdd mewnol a chanllaw arbenigol ar ddatblygu ein methodoleg archwilio.

## Archwiliadau o berfformiad

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol wrth archwilio perfformiad, er mwyn asesu a yw ein gwaith wedi cydymffurfio â'r safonau rydym wedi eu nodi yn ein fframwaith ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- adolygiadau ex-post o sampl o gynhyrchion archwilio perfformiad a ddewisir i'w hadolygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:
  - caiff pob arweinydd ymgysylltu, fel arfer, ei adolygu bob blwyddyn; a
  - chaiff pob rheolwr archwilio, fel arfer, ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.
- adolygiadau gan gymheiriaid o sampl o adroddiadau cenedlaethol;
- adborth ar adroddiadau cenedlaethol a rhaglenni gwaith archwilio perfformiad o arolygon rhanddeiliaid;
- asesiad o ansawdd ein hallbynnau ysgrifenedig o ddadansoddiad o weithgarwch golygu a sgrinio archwiliadau o berfformiad;
- dadansoddiad o gyflwyno gwaith ar amser ac o fewn y gyllideb; a
- gweithgareddau dysgu a datblygu y grŵp perfformio.

Er mwyn cynnal yr adolygiadau gan gymheiriaid a amlinellir uchod, rydym wedi sefydlu trefniadau cytbwys gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, i adolygu sampl o'n hadroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn.

## Cwmnïau sector preifat

Rydym hefyd yn contractio gyda chwmnïau archwilio sector preifat, er mwyn cyflawni rhywfaint o waith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ofynnol, yn gytundebol, i'r cwmnïau hyn sefydlu eu fframweithiau rheoli ansawdd eu hunain, er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cael ei gyflawni i'r safonau ansawdd priodol. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro a yw'r safonau hynny yn cael eu cyrraedd, ac mae dulliau unioni priodol wedi'u sefydlu os na chyrhaeddir y safonau hynny.

## Trefniadau cwmni cyfan

Mae'r Archwilwyr Cyffredinol Cynorthwyol ar gyfer Archwiliadau Ariannol ac Archwiliadau o Berfformiad hefyd yn gyfrifol ar y cyd am fonitro a oes trefniadau cymorth priodol ar waith (yn cynnwys mewn perthynas â threfniadau annibyniaeth) ar hyd a lled Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau safonau yr ydym yn disgwyl eu cyrraedd o ran ansawdd archwiliadau. I'r perwyl hwn, maent yn gweithio mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am gynghori'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd ar y fframwaith rheoli ansawdd sydd wedi'i sefydlu yn Swyddfa Archwilio Cymru, a'r Cyfarwyddwr Cyllid, sy'n gyfrifol am Adnoddau Dynol (yn cynnwys ein prosesau recriwtio ac arfarnu).

## Adrodd

Caiff canlyniadau'r gwaith archwilio hwn eu hadrodd i bwyllgorau'r cyfarwyddwyr ar gyfer pob practis, a chânt eu rhannu â phob aelod o'r staff, er mwyn cefnogi ein dyhead am welliant parhaus.

# Monitro ac adrodd ar ansawdd archwiliadau


Un o'r dangosyddion perfformiad allweddol rydym yn ei fesur yn unol â'n Cynllun Blynyddol yw:

- Cyfran yr archwiliadau a gyflawnir yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol.

Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys gwaith a wneir gan y ddau bractis mewnol (archwiliadau o berfformiad ac archwiliadau ariannol), yn ogystal â gwaith a wneir gan gwmnïau sector preifat.

Rydym yn gosod targed ar gyfer y dangosydd hwn o gydymffurfio 100% mewn perthynas â'r archwiliadau a asesir fel rhan o'r gwaith o fonitro ansawdd a ddisgrifir uchod.

Rydym yn adrodd yn gyhoeddus ar ein perfformiad yn erbyn y targed hwn ddwywaith y flwyddyn yn ein Hadroddiad Interim a'n Hadroddiad Blynyddol (gweler 'Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru/Yr Archwilydd Cyffredinol' am ddolenni i'r adroddiadau hyn).



Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru